**<u>Y Pwyllgor Diwylliant - CC-18-01(p.2)</u>**

**Dyddiad** 21 Tachwedd 2001

**Amser:** 9.00am - 12.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynullad Cenedlaethol

# ADOLYGIAD Y PWYLLGOR DIWYLLIANT I'R IAITH GYMRAEG

## CYFLWYNIAD GAN

## FFEDERASIWN BUSNESAU BYCHAIN YNG NGHYMRU

**Tachwedd 2001**

Ar ran Ffederasiwn Busnesau Bychain yng Nghymru, hoffwn ddiolch am y cyfle i gyflwyno ein teimladau a'n syniadau i Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r Iaith Gymraeg. Fel sefydliad sydd yn cynrychioli dros 6,500 o fusnesi yng Nghymru, mae gennym aelodaeth ym mhob sector diwydiannol, sydd yn ymestyn dros pob ranbarth economaidd ac ieithyddol y Genedl. Mae nifer helaeth o'n aelodau wedi eu lleoli oddi fewn i'r cadarnleoedd Cymraeg ac yn defnyddio yr iaith yn ddyddiol wrth redeg eu busnesau. Mae yno fusnesau eraill, oddi fewn ac y tu allan i'r cadarnleoedd hyn, sydd gyda diddordeb brwd o ddatblygu defnydd o'r iaith. Ni wyddwn i ba raddau mae'r awydd yma yn cael ei amharu arno gan rwystrau, gwir neu ddychmygol, sydd yn gwneud defnydd o'r iaith yn amhwrpasol neu yn anaddas.

O arolwg a gomisiynwyd gan y FSB yn 1999, gwelwn mai dim ond 8% o fusnesi ag atebodd oedd yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn ddyddiol. O'r rhai a ddefnyddir yr iaith, mynegodd y mwyafrif helaeth bod hyn o fantais. O'r 92% nad oedd yn defnyddio'r iaith pa fodd bynnag, dim ond rhyw 6% a dybiai bod eu diffyg yn anfantais i'w busnesi.

Mae'r ymateb isel i'r cwestiwn yn awgrymu dau ganlyniad penodol.

1. Mewn cymhariaeth gyda agweddau eraill a amlygwyd yn yr arolwg, ni thybiwyd fod yr Iaith Gymraeg yn bwysig i'r mwyafrif o berchnogion busnes yng Nghymru

2. Ym marn y mwyafrif o berchnogion busnes na ellir y Gymraeg, ni chredant fod y diffyg yma yn rhwystr mawr i barhad a thwf eu busnesi.

Ni ellir canfod o'r arolwg ym mha ardaloedd o Gymru oedd y busnesai ac ymatebodd wedi eu

lleoli.

Mae'n ymddangos o'r ymateb fod y mwyafrif o fusnesai yn ddi-hid am y Gymraeg gan nad ydynt yn ei ystyried fel ffactor sydd yn cyflwyno manteision nac anfanteision penodol. Y ffordd fwyaf effeithiol felly o hyrwyddo yr iaith i fusnesai bychain yw arddangos iddynt y manteision economaidd, diwylliannol a chymdeithasol pendant a gyflwynir gan yr iaith.

Mae'r Ffederasiwn yn sylweddoli ac yn croesawu y pwyslais economaidd cynyddol fydd yn cael ei osod ar yr iaith Gymraeg yn enwedig mewn sectorau megis twristiaeth ddiwylliannol a'i defnydd fel iaith gymunedol. Bydd yn ofynnol i nifer o fusnesai bychain newid eu hagwedd tuag at yr iaith i fanteisio o'r twf hyn. Pa fodd bynnag mae hefyd yn bwysig bod polisïau a chynlluniau cyhoeddus hyrwyddo'r iaith yn addas i ofynion busnesau bychain. Rhaid hyrwyddo'r iaith i fusnesai mewn ffordd sensitif a phositif; eu hatynnu yn ysgafn yn hytrach na gweithredu unrhyw orfodaeth.

I ddarganfod sut gall busnesau fanteisio o'r pwyslais ar y Gymraeg, mae'n ofynnol i edrych yn fanylach ar rai o'r themâu a amlinellwyd gan y Pwyllgor.

**TEULUOEDD A CHYMUNEDAU**

Busnesau teuluol yw nifer helaeth o fusnesai bychain, ac yn aml maen't yn cynnig gwasanaeth hanfodol i'w cymunedau lleol. Fel aelodau llawn o'u cymunedau byddai perchnogion busnes a'u teuluoedd yn manteisio, yn uniongyrchol ac anuniongyrchol, o unrhyw gyweithiau addysgol dwyieithog ac wrth ehangu darpariaeth Gymraeg i oedolion. Mae'n bwysig fod busnesai yn ymateb i ofynion eu cwsmeriaid gan fabwysiadu agwedd bositif tuag at yr iaith mewn ardaloedd Cymraeg. Gall polisïau Cynulliad, a weithredir drwy gyrff statudol, gynorthwyo hyn drwy fabwysiadu cynlluniau a fydd yn cynorthwyo pobl busnes addasu i ddefnyddio a chynnig gwasanaeth yn Gymraeg.

**DATBLYGU ECONOMAIDD**

Mae barn FSB Cymru yn adleisio'n gryf datganiad y pwyllgor bod gweithgarwch economaidd yn hanfodol i gynhaliaeth cymunedau. Heb weithgarwch economaidd cryf mewn cymunedau Cymraeg bydd yr iaith yn parhau i fod o dan fygythiad. Buasai datblygu economi cymunedol yn cynyddu llewyrch a chyfoeth trigolion lleol, gan gynyddu eu hyder yn yr iaith ac wrth fentro yn yr economi. Buasai twf economaidd a chynydd mewn cyfleon gyrfaol hefyd yn sicrhau lleihad mewn allfudo gan drigolion ifanc deinamig a Chymraeg eu hiaith. Gall datblygiad economaidd ddenu pobl i ddychwelyd i'w cymunedau gan ddod â'u cyfoeth, profiadau a busnesai gyda

hwy.

Mae FSB Cymru o'r farn mae un o'r prif ffyrdd y gellir hybu economi cymunedol Cymru yw cynyddu'r pwyslais a osodir ar fusnesai bychain. Bydd hyn angen ymdrech penodol gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy gynlluniau cynghori, cynorthwyo a chyllido. Ond bydd hefyd yn ddibynnol ar newid chwyldroadol mewn agweddau tuag at addysg, hyfforddiant, byd busnes ac mentergarwch. Mae hyn yn eithriadol o wir wrth ystyried cymunedau Cymraeg lle mae yno or-ddibyniaeth draddodiadol ar ddilyn gyrfa yn y sector cyhoeddus. I gymunedau Cymraeg ffynnu yn economaidd mae'n hanfodol bod mwy o drigolion yn mentro mewn byd busnes.

Mae llawer o gymunedau Cymraeg hefyd yn trigo oddi-fewn ffiniau nawdd strwythurol Amcan 1. Mae'n bwysig felly i dargedu y cymorth ariannol hwn i brosiectau a fydd yn cynorthwyo'r sector preifat, gan gynnwys mentrau cymunedol. Yn hyn o beth rydym yn croesawu arian Amcan 1 sydd wedi ei wobrwyo i fanc Cyllid Cymru gan obeithio y bydd yn hwb sylweddol yn y nifer o fusnesau bychain fydd yn cael eu sefydlu yng Ngogledd a De Orllewin Cymru. Ond mae angen llawer iawn mwy o adnoddau i roi yr hwb angenrheidiol sydd ei angen.

Gyda chymaint o ardaloedd Cymraeg mewn tirwedd wledig, rhaid hefyd ymchwilio a datblygu rhwydweithiau, yn enwedig strwythurau trafnidiaeth a Gwybodaeth Technegol, i hwyluso gweithgareddau busnesau.

Rhaid i'r pwyslais fod ar greu cymhellion sydd yn ysgogi a chynorthwyo mentr ac sydd yn osgoi creu rhwystredigaethau fydd yn amharu ar effeithiolrwydd busnes. Gall y cymhellion hyn gael eu darparu drwy gynnig;

a. gwasanaethau cynghori i ddangos sut gall busnesau bychain ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol o ddydd i ddydd

b. cymorth ymarferol a gynhwysai cyflenwi bathodynnau ac arwyddion dwyieithog

c. cymorth cyllidol i ariannu cyrsiau hyfforddi dwyieithog ar gyfer y perchnogion a'r staff.

Buasem yn croesawu unrhyw fesur fuasai yn cefnogi mentergarwch dwyieithog gyda chymhellion o gynnig hyfforddiant i gwmnïau sy'n cyflogi gweithlu dwyieithog. Yn ogystal ag anelu at hyfforddiant dwyieithog, gellir hefyd wobrwyo busnesai sydd eisoes yn cyflogi gweithlu dwyieithog, drwy gynnig opsiynau hyfforddiant mewn meysydd eraill.

Nid yw'n amlwg pam fod y Pwyllgor yn ystyried gwahaniaethu rhwng cynnig hyfforddiant i gwmnïau oddi fewn yr economi newydd yn unig. Tra ei fod yn bwysig canolbwyntio ar yr economi newydd yn gyffredinol yng Nghymru, nid yw'n addas gwahaniaethu wrth ystyried ffyrdd o hybu yr iaith Gymraeg. Dylai unrhyw fesur sydd yn anelu i hyrwyddo defnydd o'r iaith fod ar gael i fusnesau ym mha bynnag sector.

Croesewir yn frwd yr ystyriaeth i osod cymhellion trethiannol i gwmnïau bach a chanolig sy'n gweithredu'n ddwyieithog. Buasai cymhellion o'r fath yn ddylanwadol iawn i berswadio busnesai sydd yn ystyried datblygu polisi dwyieithog. Pa fodd bynnag, nid yw'n eglur sut a phwy buasai yn gosod a phlismon y criteria ar lefel o ddwyieithrwydd fyddai ei angen.

Gellir hefyd ysgogi a rhoi cymorth i fusnesau ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy cyffredinol, gan ddangos y manteision economaidd o wneud hynny. Er enghraifft gellir pwysleisio y pwysigrwydd o greu awyrgylch ieithyddol sydd yn gyffyrddus i'r cwsmer a'r gweithlu. Dylai Bwrdd yr Iaith ehangu mesurau sydd yn cynorthwyo busnesi i ddefnyddio'r Gymraeg, gan hefyd eu cynorthwyo i hysbysebu eu gallu yn yr iaith i'w cwsmeriaid. Buasai ehangu system grantiau bach y Bwrdd Iaith i gynorthwyo busnesai gyda arwyddion dwyieithog a chynnig cymorth gwybodaeth technegol, yn fodd o wneud hynny.

**YMCHWIL A DATBLYGU**

Wrth gasglu data ar sefyllfa yr iaith, mae'n hanfodol cynnwys ystadegau sydd yn dangos defnydd o'r Gymraeg ymysg busnesi yn ogystal ag agweddau busnesai di-Gymraeg tuag at yr iaith. Ymysg agweddau eraill, gellir ymchwilio i gwestiynau megis;

- gwerth economaidd yr iaith i fusnesau bychain
- faint o fusnesau bychain a chanolig sydd yn barod yn gweithredu'n ddwyieithog
- beth maen't yn ei ystyried fel y prif fanteision ac anfanteision o ganlyniad i weithredu'n ddwyieithog
- beth yw'r gost i fusnesau o ddilyn polisi dwyieithog
- beth yw ymateb eu cwsmeriaid i'r polisi
- faint o fusnesau buasai gyda diddordeb o ddatblygu polisi dwyieithog
- pa gymorth cyhoeddus mae busnesau ei angen i'w helpu wrth hyrwyddo'r iaith

**HYBU DWYIEITHRWYDD A CHYNNAL CONSENSWS CENEDLAETHOL A EWYLLYS DA**

Mae ennill consensws ac ewyllys da ymysg byd busnes yn hanfodol, yn enwedig mewn ardaloedd lle bod yr iaith yn lleiafrif. Ysgogi a pherswâd ysgafn yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu ewyllys da ymysg busnesau tuag at yr iaith. Mae yno berygl bydd polisïau gorfodol yn wrth gynhyrchiol, yn enwedig mewn ardaloedd di-

Gymraeg.

Rhaid sylweddoli y bydd gwahaniaethau mewn agweddau rhwng busnesau o wahanol allu adnoddau, ac sydd wedi eu lleoli mewn gwahanol ardaloedd ieithyddol o Gymry. Gellir dychmygu busnesau mewn ardaloedd Cymraeg a lled-Gymraeg yn meithrin agweddau positif tuag at yr iaith. Gyda busnesau sydd gyda llai o adnoddau i addasu, ac sydd heb wedi eu lleoli mewn ardal Gymraeg, bydd angen canfod ffyrdd mwy dychmygol i ennill eu hewyllys da a'u cydweithrediad.

**BUDDSODDI CYHOEDDUS A STRWYTHURAU CYFLENWI**

Mae rhaid i unrhyw fuddsoddiad cyhoeddus i gynllunio ieithyddol gynnwys ystyriaeth o ofynion busnesau bychain sydd yn gweithredu mewn cymunedau. Mae FSB Cymru o'r farn y dylai swyddogaeth Bwrdd yr Iaith rhoi ffocws penodol ar gynorthwyo busnesai drwy gynnig cyngor a chymorth ymarferol neu gyllidol i gynorthwyo a galluogi trawsnewid. Buasai canolbwyntio ar ddarparu cymorth i gynyddu sgiliau iaith, gan gynnwys y gallu i ymateb iddi, yn fanteisiol i hybu hyder a'r cyfleon a ddaw o'i defnyddio.

Unwaith eto mae FSB Cymru yn diolch am gael y cyfle i ymateb i'r Adolygiad.